Coeden Ddarllen Rhydychen

Tylluanod

Twll yn y To

Roderick Hunt Alex Brychta

DRAKE



Roedd hi'n amser chwaraeon yn yr ysgol.

Roedd y plant allan ar y cae.

Rhedodd Anneena at Mrs Jones.

"Dowch i weld rhywbeth, Mrs Jones," meddai hi.

Roedd rhywun wedi torri'r ffens ac
wedi gollwng sbwriel ar y cae.
Roedd Wilff yn flin.
"Dydan ni ddim eisio sbwriel ar ein cae ni," meddai.
"Nid tomen sbwriel ydi'r cae," meddai Mrs Jones.

Yna gwelodd Mrs Jones rywbeth yn y sbwriel.
"Welwch chi hwn?" gofynnodd i'r plant.
"Mangl ydi o.
Mae'n gwasgu'r dŵr o ddillad gwlyb."
"Sut mae'n gwneud hynny?" gofynnodd Anneena.



Aeth Mrs Jones â'r mangl i'r dosbarth.
Dangosodd i'r plant sut roedd o'n gweithio.
I ddechrau cafodd gynfas fawr a'i gwlychu.
Yna trodd Nadim yr handlen a helpodd Cad
Mrs Jones i roi'r gynfas drwy'r mangl.

Rhedodd y dŵr o'r gynfas ac aeth i mewn i
bwced.
"Nid efo mangl y byddwn ni'n sychu dillad
bellach," meddai Mrs Jones.
"Beth fyddwn ni'n ei ddefnyddio?"

Dangosodd Mrs Jones lun i'r plant o rywun yn golchi dillad erstalwm.
Gofynnodd Mrs Jones i'r plant a oedd ganddyn nhw unrhyw hen bethau gartre.
Dywedodd rhai o'r plant fod yna rai.



Pan gyrhaeddodd Cad a Dids adref o'r ysgol, edrychon nhw ar y tŷ bychan.
"Mae'r tŷ yn edrych yn hen iawn," meddai Dids, "a'r plant bach yma hefyd.
Beth am fynd â nhw i'r ysgol?"



Doedd Onw ddim eisiau iddyn nhw fynd â'r tŷ bychan i'r ysgol.

"Beth am yr hud?" gofynnodd i Cad.

"Fydd yr hud ddim yn gweithio os nad awn ni â'r allwedd," meddai Cad.



Aeth rhai o'r plant â hen bethau i'r ysgol.

"Am bentwr o bethau!" meddai Mrs Jones.

"Dysgwn ni hanes pob un a threfnu arddangosfa."

Roedd Mrs Jones a'r plant i gyd yn hoffi'r tŷ bychan.

Soniodd Cad a Dids 'run gair ei fod yn dŷ hud.

Cyfrinach oedd hynny.

Roedd Wilff yn ymddwyn yn wirion.

Dringodd ar fwrdd Mrs Jones a gwthio rhai o'r llyfrau drosodd.

Crash! Syrthiodd rhai o'r llyfrau ar y tŷ bychan.

"O na!" meddai Cad.

Gwnaeth un o'r llyfrau dwll yn y to.
Roedd Wilff yn torri'i galon pan welodd fod y to wedi torri.
"Mae'n ddrwg gen i," meddai. "Efallai y medra i gael Dad i'w drwsio."

Aeth Cad a Dids â'r tŷ adref.
Roedd Onw yn flin pan welodd ei fod wedi torri.
Roedd yr allwedd hud yn ei law.
"Fydd yr hud yn dal i weithio?" gofynnodd.
Yna, dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.



Cychwynnodd antur newydd.
Aeth yr hud â'r plant yn ôl mewn amser.
Aeth â nhw'n ôl i'w tŷ nhw amser
maith yn ôl.
Edrychai'r tŷ yn newydd ond roedd twll yn y to.

Roedd tri o blant yn chwarae y tu
allan a dau ddyn yn trwsio'r to.
"Dyna hardd oedd ein tŷ ni erstalwm,"
meddai Cad. "Ond sut y daeth twll yn y to?"



Gwelodd y plant Cad, Dids ac Onw, a dod atyn nhw.

"Helo," medden nhw. "Pwy ydach chi?"

"Cad ydw i," meddai Cad. "Dyma Dids a dyma Onw."

"Am enwau od!" meddai'r eneth.

"Buddug ydi f'enw i, dyma Tomos, a dyma Dei."

"Dyna ddillad doniol sy gynnoch chi!" meddai Dei.

"Dim mor ddoniol â'ch rhai chi!" meddai Onw.



Edrychodd Onw i fyny at y dynion ar y to.
"Sut y daeth y twll yn y to?" gofynnodd.
"Wyddon ni ddim," meddai Tomos. "Roedd o wedi torri pan godon ni."
"Dyna ryfedd," meddai Onw.

Daeth dynes allan a galw ar y plant.
"Ewch i mewn i olchi'ch dwylo," meddai hi.
"Mae'n amser te."
"Eich mam chi ydi hi?" gofynnodd Cad.
"Nage," meddai Tomos. "Ein cogyddes ydi hi."

Aeth y plant i'r gegin.
Edrychodd y gogyddes ar Cad, Dids ac Onw.
"Gân nhw aros i de?" gofynnodd Buddug.
"Mae ganddyn nhw ddillad doniol," meddai'r gogyddes, "ond fe gân nhw aros."

Edrychodd Cad o amgylch y gegin.
"Dydi hi ddim yn debyg i'n cegin ni," meddai.
Edrychodd y gogyddes ar ddwylo Dids.
"Dos i olchi dy ddwylo," meddai hi.
"Neu fydd yna ddim te i ti."

Ar ôl te, gwnaeth y gogyddes iddyn
nhw olchi eu dwylo eto.
Yna dywedodd wrth Tomos am fynd
â phaned i'r gweithwyr.
"Dowch i weld ein hystafelloedd ni," meddai Tomos.



Roedd y twll yn nho ystafell Tomos.
"Ydi o wedi ei drwsio bellach?" gofynnodd.
"Mi fydd, mewn fawr o dro," meddai'r dyn.
"Diolch am y baned."



Aeth y plant i ystafell wely Buddug.
Roedd gan Buddug ystafell fechan yn ei hystafell.
Yr un ystafell ag un Cad oedd hi.
"Rydan ni'n cadw teganau yma," meddai Dei.
"Dowch i weld."

Edrychodd Cad, Dids ac Onw ar deganau'r plant.
Roedd Dids wedi dotio at y ceffyl pren.
"Hoffwn i petai gynnon ni geffyl fel hwn," meddai.
"A finnau!" meddai Cad.

Aeth Buddug â Cad, Dids ac Onw i'r ystafell fechan.

"Dowch i weld hwn," meddai.

"Be ydi o?" gofynnodd Onw.



Dangosodd Buddug dŷ bychan iddyn nhw.

Dywedodd wrthyn nhw fod ei thad yn ei wneud iddyn nhw.

"Bydd o'n edrych fel y tŷ yma," meddai hi.

"Bydd. Rydan ni'n gwybod," meddai Cad.

Edrychodd Tomos ar wats Dids ac edrychodd Dids ar gwch Tomos.

"Wyt ti eisio ffeirio?" gofynnodd Tomos.

"O, ydw," meddai Dids, "wedyn medra i fynd â'r cwch i'r ysgol i'w ddangos i Mrs Jones."

Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

"Mae'n amser inni fynd," meddai Onw, "ond dydw i ddim eisio mynd."

"Ddowch chi'n ôl?" gofynnodd Tomos.

"Wyddon ni ddim," meddai Cad. "Efallai."

Aeth yr hud â'r plant adref.

Edrychon nhw ar y tŷ bychan.

"Mae'r twll yn y to wedi ei drwsio," meddai Cad.

"Sut y digwyddodd hynny?"

"Wn i ddim," meddai Cad. "Efallai fod Dad wedi ei drwsio."

"Dwi'n meddwl mai'r gweithwyr yn yr antur wnaeth," meddai Onw. "Gwelson ni nhw."

"Hud a lledrith," meddai Cad.

"Dyna'r antur orau un," meddai Cad.
"Roeddwn i'n hoffi'r plant hen ffasiwn yna.
Hoffwn i fynd yn ôl i'w gweld nhw eto."
"A finnau," meddai Dids, gan edrych ar y cwch.
"Efallai y cawn i fy wats yn ôl!"

Argraffwyd yng Nghymru

9 Twll yn y To

Coeden
Ddarllen
Rhydychen
Cam 7

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws

Tylluanod

Tylluanod Cam 6

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

Tylluanod Cam 7

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
℗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
℗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0 86 174258 3

DRAKE

ISBN 0-86174-258-3

9 790861 742584